# Cyngor Dinas Bangor

## POLISI CYFETHOL CYNGHORWYR

### 1. Cyflwyniad

Os nad yw Cyngor Gwynedd yn derbyn cais am etholiad erbyn y dyddiad ar yr Hysbysiad am Sedd Wag, bydd yr Adran Gwasanaethau Etholiadol yn dweud wrth Gyngor Dinas Bangor y gall gyfethol i'r sedd wag.

Cyfethol yw'r broses lle mae Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru yn dewis cynghorwyr newydd. Gwneir hyn fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfod arferol o'r Cyngor.

Y Cyngor Cymuned ei hun sy'n rheoli'r broses gyfethol a rhaid iddo ymroi i ddangos ei fod yn deg a chyfiawn drwy ddilyn y weithdrefn a amlinellir isod:

### 2. Y Weithdrefn

i) Mae Cyngor Dinas Bangor yn hysbysebu seddi gwag ac yn gwahodd ymgeiswyr cymwys sydd â diddordeb i hysbysu'r Cyfarwyddwr Dinesig am eu diddordeb mewn ysgrifen erbyn y dyddiad a bennwyd. Derbynnir hysbysiadau o ddiddordeb drwy e-bost.

ii) Yn dilyn dyddiad cau'r hysbysiad cyfethol bydd y Cyfarwyddwr Dinesig yn dweud wrth yr ymgeisydd/ymgeiswyr pryd mae'r cyfarfod Cyngor nesaf wedi'i drefnu.

iii) Anfonir manylion i'r ymgeiswyr am ofynion a chyfyngiadau bod yn Gynghorydd Tref a Chymuned yng Nghymru a gofynnir iddynt hunan-ardystio mewn ysgrifen i gadarnhau eu bod yn bodloni'r gofynion statudol hynny.

iv) Yng nghyfarfod y Cyngor, gofynnir i'r ymgeiswyr ddweud rhywbeth amdanynt eu hunain, gan amlinellu eu profiad, sgiliau a'u personoliaeth, sydd, yn eu tyb nhw, yn bwysig i swydd Cynghorydd ar Gyngor Dinas Bangor. Os oes mwy nag un ymgeisydd, gwrandewir ar yr anerchiadau yn nhrefn yr wyddor. Gofynnir i'r

ymgeiswyr sydd ar ôl adael y siambr. Rhoddir uchafswm o dri munud i bob ymgeisydd.

v) Ar ôl i bob ymgeisydd annerch y Cyngor a'r ymgeisydd olaf adael y Siambr, bydd sesiwn gaeedig o'r Cyngor yn cychwyn, heb y cyhoedd yn bresennol.

vi) Unwaith mae'r Cyngor yn gaeedig, bydd y Cadeirydd yn gofyn am bleidlais. Pleidlais gudd fydd hon ar bapurau pleidleisio a baratowyd yn barod. Gall y Cynghorwyr lenwi un papur pleidleisio am bob sedd wag sydd i'w llenwi.

vii) Wedi cwblhau'r bleidlais, bydd y Cadeirydd, mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Dinesig, yn adolygu'r papurau pleidleisio ac yn cyhoeddi'r canlyniad yn ôl trefn y wyddor.

viii) Mae angen i un ymgeisydd gael mwyafrif llwyr o'r pleidleisiau i gael ei gyfethol.

ix) Os nad oes un ymgeisydd yn cael mwyafrif ar y bleidlais gyntaf, bydd yr ymgeisydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei ddileu. Caniateir i'r aelodau drafod yr ymgeiswyr sydd ar ôl am ddim mwy na 3 munud cyn bod ail bleidlais yn digwydd. Ailadroddir y broses hon hyd nes bod un person yn cael mwyafrif llwyr.

x) Bydd y pleidleisio yn digwydd yn unol â Rheolau Sefydlog Cyngor Dinas Bangor, a chanllawiau Llywodraeth Cymru, felly, gall unrhyw Gyngor ystyried ei bresenoldeb mewn cyfarfod, boed yn bersonol neu o bell, gymryd rhan yn y pleidlais ac efallai y bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei bleidlais benderfynol.

xi) Wedi i un ymgeisydd gael mwyafrif llwyr, cyhoeddir eu bod wedi eu cyfethol.

xii) Gofynnir i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud eu datganiad a llofnodi'r ffurflen ddatganiad, sy'n datgan yn ffurfiol eu bod wedi'u cyfethol i'r Cyngor. Yna gofynnir iddynt ymuno â'r cyfarfod.

xiii) Mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn gynghorydd yn ei rinwedd ei hun ac nid yw'n wahanol i unrhyw aelod arall; mae cyfethol yn ffurf ddilys o etholiad fel rhan o'r broses etholiadol.

Adolygwyd Rhagfyr 2025

Martin Hanks

Cyfarwyddwr Dinesig